Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

1060 e.171. Ychydig o hanes enwogion yr Hen Destament. - S. Roberts

1060 e. 171

Rowland Hughe

Maendowr

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor.

Rowland Hughes Slater

# YCHYDIG

O

# HANES ENWOGION

Holyhead

YR

# HEN DESTAMENT;

ER BUDD YR

## Ysgolion Sabbothol.

GAN

*SAMUEL ROBERTS,*

LLANBRYNMAIR.

Hyf ddilesg grefyddolion
Mawr eu llwydd, yw'r Cymry llon;
Yn eu plith y ceir y plant,
Am wir addysg ymroddant;
Hwy gerddant i dŷ'r Gwir-Dduw,
Eu goreu dasg yw gair Duw.

*Ieuan Glan Geirionydd.*

*EUR-WASG:*

LLANFAIR-CAER-EINION; ARGRAFFWYD GAN R. JONES.

1827.

BODLEIAN 21 JUL 1966 LIBRARY

# HYSPYSIAD.

*Meddyliwn y gallai ychydig o Hanes Enwogion yr Hen Destament fod o fudd a hyfrydwch i'r Ysgolion Sabbothol.—Cynhygir yn bresenol i'w sylw grynöad byr o Hanes Bywyd Tad y Ffyddloniaid; a bwriedir gwneuthur cyffelyb ddefnydd o'r hanesion addysgiadol a roddir i ni am Adda ac Enoc a Noa a Melchisedec a Lot a Jacob a Joseph a Moses a Josua a Samson a Samuel ac Elias a Dafydd a Solomon a Josia a Daniel a'r "Tri Llanc" a Debora a Ruth ac Esther ac eraill.*

*Teyrnased cariad gras a hedd*
*Trwy holl anneddau Cymru;*
*A moli'r Ion, mewn nefol iaith,*
*Fo difyr waith pob teulu.*

*Ireiddiawl wlith y nefawl fro*
*Ddisgyno ar yr Eglwys,*
*Nes iddi oll flodeuo'n hardd*
*Fel ffrwythlawn ardd Paradwys.*

*Addurned gras yr Ieuenctyd cu*
*Sy'n cyrchu i'r Ysgolion:*
*Effeithiau'r Gair ymdaeno ar led:*
*A gwisged Iesu'r goron.*

*SAMUEL ROBERTS.*

Llanbrynmair, Medi y 5ed, 1827.

# Hanes Abraham.

1. GOFYNIAD. Pwy oedd Abram?
   ATEBIAD. Mab i Tera o hiliogaeth Heber. Gen. 11. 26.
2. G. Pa bryd y ganwyd Abram?
   A. O gylch y flwyddyn dwy fil ac wyth gant o oed y byd.
3. G. Ym mha le y treuliodd Abram foreu ei oes?
   A. Yn ngwlad ei enedigaeth o fewn Ur y Caldeaid. Gen. 11. 28, 29.
4. G. Pa hanes a roddir i ni am genedl a chymydogion Abram?
   A. Ni ddywedir ond ychydig am danynt; ond gellir casglu eu bod yn byw yn dra eilunaddolgar mewn anghof o ARGLWYDD DDUW eu tadau. Josua 24. 2.
5. G. A arhosodd Abram ym mysg ei geraint a'i gyfeillion annuwiol?
   A. Na ddo: efe a ymneillduodd oddiwrthynt mewn ufudd-dod i orchymyn yr ARGLWYDD. Heb. 11. 8.
6. G. A ddarfu i neb o gyfeillion Abram ei ganlyn yn ei ymdaith?
   A. Do: Tera ei dad, Sara ei wraig, a Lot ei nai. Gen. 11. 31.
7. G. Pa amgylchiad a gyfarfu âg Abram yn Haran?
   A. Yno y bu farw, ac y claddwyd, Tera ei dad. Gen. 11. 32.
8. G. A ddarfu i farwolaeth ei dad wangaloni Abram, a pheri iddo droi yn ol i'w hen wlad?
   A. Na ddo: efe a ymwrolodd yn nerth ei ARGLWYDD, ac a aeth rhagddo yn ol ei orchymyn. Gen. 12. 5.
9. G. Pa faint oedd oed Abram pan gychwynodd efe o Haran?
   A. Pymtheg mlwydd a thrugain. Gen. 12. 4.
10. G. A dderbyniodd Abram unrhyw addewidion wrth gychwyn ei bererindod?

A. Do: addewidion mawr iawn a gwerthfawr;—sef, y byddai iddo gael ei fendithio a'i wneud yn genhedlaeth fawr—y rhoddid gwlad Canaan yn etifeddiaeth i'w hâd—y darostyngid eu holl elynion—ac y byddai i'r MESSIA bendigedig gyfodi o'i lwynau, i fendithio holl dylwythau'r ddaear. Gen. 12. 1, 2, 3.

11. G. Pa addysgiadau a roddir i ni yn y rhan yma o hanes Abram?

A. 1. Y dylem ymneillduo oddiwrth gyfeillion annuwiol, ac ymwadu â'u harferiadau drwg.

2. Na ddylem adael i unrhyw *rwystr* ein hatal i ddilyn yr ARGLWYDD mewn ufudd-dod i'w orchymynion.

3. Mai yr unig bobl ddedwydd, ddiogel, a llwyddiannus ydynt y rhai hyny ag y mae'r ARGLWYDD hollalluog yn DDUW ac yn Arweinydd iddynt.

12. G. Pan ddaeth Abram i dir Canaan, a dderbyniodd efe gyflawn fwynhâd o Wlad yr Addewid?

A. Na ddo: yr oedd y Canaaneaid yn y wlad y pryd hyny; ac efe a drigodd mewn lluestai, gan dreulio ei oes megis pererin yn y tir. Gen. 12. 6.—Heb. 11. 9.

13. G. A barodd hyn ddim iddo ammeu ffyddlondeb yr ARGLWYDD i gyflawnu ei addewidion?

A. Na ddo: parhäodd ei ffydd yn ddiegwan, a'i oglud yn ddiysgog ar DDUW. Heb. 11. 13.

14. G. Pa amlygiad a roddodd Abram o'i dduwioldeb wedi iddo gyraedd gwlad Canaan?

A. Efe a adeiladodd yno allor, ac a alwodd ar enw'r ARGLWYDD. Gen. 12. 7, 8.

15. G. Pa addysgiadau allwn ni gael oddiwrth yr ymddygiad hwn o eiddo Abram?

A. 1. Fod Abram yn grefyddwr *gwastad*. Arferai addoli yr ARGLWYDD ym *mhob* man y byddai.

2. Fod Abram yn grefyddwr *gwrol*. Nid ofnodd godi allor i DDUW, a galw ar ei enw, mewn bro estronol.

3. Fod Abram yn grefyddwr *cyhoeddus*. Nid yn unig efe a weddiodd yn *ddirgel*, ond efe a alwodd yn *gyhoeddus* ar enw yr ARGLWYDD.
4. Fod Abram yn grefyddwr *llafurus*. Yr oedd yn *codi allor* y'mhob man y byddai yn pabellu.
5. Fod Abram yn grefyddwr *hael*. Gellir casglu ei fod nid yn unig yn *codi allor*, ond hefyd yn *aberthu*, i'r ARGLWYDD, gan ei anrhydeddu â'i gyfoeth ac â'r peth penaf o'i holl ffrwyth.
6. Fod Abram yn grefyddwr *cymdeithasgar*, a'i fod am ddysgu ei deulu a'i gymydogion i adnabod a gwasanaethu yr ARGLWYDD.

16. G. A ddarfu i unrhyw amgylchiad cyfyng gyfarfod Abram o gylch yr amser hwn?
A. Do: gorfod iddo fyned i waered i'r Aipht ac ymdeithio yno, am fod newyn yn ngwlad Canaan. Gen. 12. 10.

17. G. A syrthiodd Abram i ryw brofedigaeth yn ei fynediad i'r Aipht?
A. Do: bu ofn dyn yn gymaint magl iddo, fel y gwadodd, mewn effaith, ei berthynas â Sara ei wraig, trwy ddywedyd mai ei chwaer ydoedd. Gen. 12. 11, 12, 13.

18. G. Beth fu y canlyniad o'r ymddygiad pechadurus hwn yn Abram?
A. Cafodd Sara ei dwyn o'i fynwes i dŷ Pharao, a bu mewn perygl mawr o golli cymdeithas a chynnorthwy ei gydmares hawddgar a phrydweddol. Gen. 12. 14, 15, 16.

19. G. Pa fodd y gwaredwyd Abram o'r brofedigaeth danllyd hon?
A. Darfu i'r ARGLWYDD daro Pharao a'i dŷ â phläau o achos Sara, fel y gadawodd efe i Abram a'i holl eiddo fyned ymaith mewn heddwch. Gen. 12. 17, 18, 19, 20.

20. G. Pa wersi a ddysgir i ni yn yr amgylchiad hwn?
A. 1. Y dylid ofni DUW yn fwy nag ofni dyn

am fod ofn dyn yn aml yn dwyn magl gydag ef.

2. Y dylai dynion bob amser, ac yn neillduol mewn amgylchiadau o bwys, ymgyngborià'r ARGLWYDD. Diffyg gwneud hyn fu'n achos i Abram syrthio i brofedigaeth mor chwerw ac mor beryglus.

3. Fod y dynion mwyaf duwiol, os cânt eu gadael iddynt eu hunain, yn debyg i ymollwng i'r profedigaethau gwaethaf, a thrwy hyny arwain eu hunain i helbul a gorthrymder.

4. Fod llithriadau duwiolion yn effeithio yn ddrwg ar eraill. Diddadl fod ymddygiad Abram yn hyn, yn achlysur i galedu ei deulu—i arwain ei wraig i wyneb y brofedigaeth—a bron agor y drws i'r pechod mwyaf gwarthus dori i mewn i lŷs Pharao.

5. Fod yr ARGLWYDD bob amser, yn ei ddaionus diriondeb, yn ymddwyn tuagat ei bobl yn well na'u hofnau ac yn well na'u haeddiant.

6. Y gall yr ARGLWYDD oruwch-lywodraethu drwg i fod er daioni. Gellir casglu fod y tro hwn yn foddion i atal Abram i ymgysylltu â'r Aiphtiaid, ac i beri iddo ddychwelyd yn ol i Wlad yr Addewid.

21. G. I ba le y tröodd Abram ei wyneb pan ollyngwyd ef ymaith o'r Aipht?

A. Efe a ymdeithiodd tua'r dehau. Gen. 13. 1.

22. G. Pa hanes pellach a roddir i ni am ei deithiau?

A. Dywedir iddo ddyfod hyd yn Bethel, lle y buasai efe cyn hyny, ac iddo wersyllu yno, a galw ar enw yr ARGLWYDD. Gen. 13. 3, 4.

23. G. A oes un crybwylliad yn cael ei wneuthur am gyfoeth Abram?

A. Oes: dywedir ei fod yn gyfoethog iawn. Gen. 13. 2.

24. G. Pa beth yn neillduol a gymerodd le tra bu Abram yn Bethel y tro hwn?

A. Yno y darfu i Lot ei nai ac yntau ymadael â'u gilydd. Gen. 13. 11.

25. G. Beth oedd yr achos o'u hymadawiad?

A. Amldra eu cyfoeth, a chynnen rhwng eu bugeiliaid. Gen. 13. 5, 6, 7, 8, 9, 10.

26. G. Pa addysgiadau allwn ni gasglu oddiwrth yr amgylchiad galarus hwn?

A. 1. Fod amlhâd cyfoeth yn fynych yn achlysuro anghydfod rhwng cyfeillion a chymydogion.

2. Fod rhwygiadau galarus weithiau yn *dechreu* mewn pethau bychain a dibwys. Gellir casglu mai dadl yn nghylch ffynon o ddwfr, neu ddarn o borfa, fu'n achos o'r rhwygiad hwn.

3. Fod tân anghydfod yn cael ei fynych gynneu mewn teuluoedd a chymdeithasau gan yr aelodau *lleiaf* ynddynt. Cynnen rhwng y ddau *fugail* barodd i Abram a Lot ymadael.

4. Fod pob dyn call a da yn ofni anghydfod yn fwy na dim. Yr oedd Abram dduwiol yn foddlon i aberthu bron bob peth i'r dyben i atal anghydfod. "*Atolwg*," meddai ef wrth Lot, "na fydded cynnen rhyngof fi â thi."

5. Mai y dynion *callaf* y'mhob cynnen sy'n son *gyntaf* am gymmodi.

6. Mai y funud *gyntaf* i ddiffodd cynnen ydyw'r *oreu*. Mae'n debyg, pe buasai Abram yn goddef i'r ddadl gynnyddu, y buasai yn terfynu mewn tywallt gwaed a cholli bywyd.

7. Fod anghariad rhwng crefyddwyr yn peri i elynion crefydd gablu. Yr oedd Abram yn ofni cynnen, rhag y buasai y Canaaneaid, ag oeddynt yn trigo yn eu hymyl, yn gwawdio crefydd o'u hachos hwy.

8. Fod anghydfod mewn unrhyw gymdeithas yn ei gwanhau i wynebu y *gelyn cyffredin*. Pe arhosasai Lot gydag Abram, ni chawsai ei anrheithio gan y gelynion.

9. Fod ieuenctyd yn aml, a hyny mewn

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor.

Rowland Hughes Slater
Holyhead

# YCHYDIG
O
# HANES ENWOGION
YR
# HEN DESTAMENT;
ER BUDD YR
## Ysgolion Sabbothol.

GAN
*SAMUEL ROBERTS*,
LLANBRYNMAIR.

Hyf ddilesg grefyddolion
Mawr eu llwydd, yw'r Cymry llon;
Yn eu plith y ceir y plant,
Am wir addysg ymroddant;
Hwy gerddant i dŷ'r Gwir-Dduw,
Eu goreu dasg yw gair Duw.

*Ieuan Glan Geirionydd.*

*EUR-WASG:*
LLANFAIR-CAER-EINION; ARGRAFFWYD GAN R. JONES.
1827.

BODLEIAN 27 JUL 1968 LIBRARY

# HYSPYSIAD.

*Meddyliwn y gallai ychydig o Hanes Enwogion yr Hen Destament fod o fudd a hyfrydwch i'r Ysgolion Sabbothol.—Cynhygir yn bresenol i'w sylw grynöad byr o Hanes Bywyd Tad y Ffyddloniaid; a bwriedir gwneuthur cyffelyb ddefnydd o'r hanesion addysgiadol a roddir i ni am Adda ac Enoc a Noa a Melchisedec a Lot a Jacob a Joseph a Moses a Josua a Samson a Samuel ac Elias a Dafydd a Solomon a Josia a Daniel a'r "Tri Llanc" a Debora a Ruth ac Esther ac eraill.*

*Teyrnased cariad gras a hedd*
*Trwy holl anneddau Cymru;*
*A moli'r Ion, mewn nefol iaith,*
*Fo difyr waith pob teulu.*

*Ireiddiawl wlith y nefawl fro*
*Ddisgyno ar yr Eglwys,*
*Nes iddi oll flodeuo'n hardd*
*Fel ffrwythlawn ardd Paradwys.*

*Addurned gras yr Ieuenctyd cu*
*Sy'n cyrchu i'r Ysgolion:*
*Effeithiau'r Gair ymdaeno ar led:*
*A gwisged Iesu'r goron.*

*SAMUEL ROBERTS.*

Lanbrynmair, Medi y 5ed, 1827.

# Hanes Abraham.

1. GOFYNIAD. Pwy oedd Abram?
ATEBIAD. Mab i Tera o hiliogaeth Heber. Gen. 11. 26.

2. G. Pa bryd y ganwyd Abram?
A. O gylch y flwyddyn dwy fil ac wyth gant o oed y byd.

3. G. Ym mha le y treuliodd Abram foreu ei oes?
A. Yn ngwlad ei enedigaeth o fewn Ur y Caldeaid. Gen. 11. 28, 29.

4. G. Pa hanes a roddir i ni am genedl a chymydogion Abram?
A. Ni ddywedir ond ychydig am danynt; ond gellir casglu eu bod yn byw yn dra eilunaddolgar mewn anghof o ARGLWYDD DDUW eu tadau. Josua 24. 2.

5. G. A arhosodd Abram ym mysg ei geraint a'i gyfeillion annuwiol?
A. Na ddo: efe a ymneillduodd oddiwrthynt mewn ufudd-dod i orchymyn yr ARGLWYDD. Heb. 11. 8.

6. G. A ddarfu i neb o gyfeillion Abram ei ganlyn yn ei ymdaith?
A. Do: Tera ei dad, Sara ei wraig, a Lot ei nai. Gen. 11. 31.

7. G. Pa amgylchiad a gyfarfu âg Abram yn Haran?
A. Yno y bu farw, ac y claddwyd, Tera ei dad. Gen. 11. 32.

8. G. A ddarfu i farwolaeth ei dad wangaloni Abram, a pheri iddo droi yn ol i'w hen wlad?
A. Na ddo: efe a ymwrolodd yn nerth ei ARGLWYDD, ac a aeth rhagddo yn ol ei orchymyn. Gen. 12. 5.

9. G. Pa faint oedd oed Abram pan gychwynodd efe o Haran?
A. Pymtheg mlwydd a thrugain. Gen. 12. 4.

10. G. A dderbyniodd Abram unrhyw addewidion wrth gychwyn ei bererindod?

A. Do: addewidion mawr iawn a gwerthfawr;—sef, y byddai iddo gael ei fendithio a'i wneud yn genhedlaeth fawr—y rhoddid gwlad Canaan yn etifeddiaeth i'w hâd—y darostyngid eu holl elynion—ac y byddai i'r MESSIA bendigedig gyfodi o'i lwynau, i fendithio holl dylwythau'r ddaear. Gen. 12. 1, 2, 3.

11. G. Pa addysgiadau a roddir i ni yn y rhan yma o hanes Abram?

A. 1. Y dylem ymneillduo oddiwrth gyfeillion annuwiol, ac ymwadu â'u harferiadau drwg.

2. Na ddylem adael i unrhyw *rwystr* ein hatal i ddilyn yr ARGLWYDD mewn ufudd-dod i'w orchymynion.

3. Mai yr unig bobl ddedwydd, ddiogel, a llwyddiannus ydynt y rhai hyny ag y mae'r ARGLWYDD hollalluog yn DDUW ac yn Arweinydd iddynt.

12. G. Pan ddaeth Abram i dir Canaan, a dderbyniodd efe gyflawn fwynhâd o Wlad yr Addewid?

A. Na ddo: yr oedd y Canaaneaid yn y wlad y pryd hyny; ac efe a drigodd mewn lluestai, gan dreulio ei oes megis pererin yn y tir. Gen. 12. 6.—Heb. 11. 9.

13. G. A barodd hyn ddim iddo ammeu ffyddlondeb yr ARGLWYDD i gyflawnu ei addewidion?

A. Na ddo: parhäodd ei ffydd yn ddiegwan, a'i oglud yn ddiysgog ar DDUW. Heb. 11. 13.

14. G. Pa amlygiad a roddodd Abram o'i dduwioldeb wedi iddo gyraedd gwlad Canaan?

A. Efe a adeiladodd yno allor, ac a alwodd ar enw'r ARGLWYDD. Gen. 12. 7, 8.

15. G. Pa addysgiadau allwn ni gael oddiwrth yr ymddygiad hwn o eiddo Abram?

A. 1. Fod Abram yn grefyddwr *gwastad*. Arferai addoli yr ARGLWYDD ym *mhob* man y byddai.

2. Fod Abram yn grefyddwr *gwrol*. Nid ofnodd godi allor i DDUW, a galw ar ei enw, mewn bro estronol.

3. Fod Abram yn grefyddwr *cyhoeddus.* Nid yn unig efe a weddiodd yn *ddirgel,* ond efe a alwodd yn *gyhoeddus* ar enw yr ARGLWYDD.
4. Fod Abram yn grefyddwr *llafurus.* Yr oedd yn *codi allor* y'mhob man y byddai yn pabellu.
5. Fod Abram yn grefyddwr *hael.* Gellir casglu ei fod nid yn unig yn *codi allor,* ond hefyd yn *aberthu,* i'r ARGLWYDD, gan ei anrhydeddu â'i gyfoeth ac â'r peth penaf o'i holl ffrwyth.
6. Fod Abram yn grefyddwr *cymdeithasgar,* a'i fod am ddysgu ei deulu a'i gymydogion i adnabod a gwasanaethu yr ARGLWYDD.

16. G. A ddarfu i unrhyw amgylchiad cyfyng gyfarfod Abram o gylch yr amser hwn?
A. Do: gorfod iddo fyned i waered i'r Aipht ac ymdeithio yno, am fod newyn yn ngwlad Canaan. Gen. 12. 10.

17. G. A syrthiodd Abram i ryw brofedigaeth yn ei fynediad i'r Aipht?
A. Do: bu ofn dyn yn gymaint magl iddo, fel y gwadodd, mewn effaith, ei berthynas â Sara ei wraig, trwy ddywedyd mai ei chwaer ydoedd. Gen. 12. 11, 12, 13.

18. G. Beth fu y canlyniad o'r ymddygiad pechadurus hwn yn Abram?
A. Cafodd Sara ei dwyn o'i fynwes i dŷ Pharao, a bu mewn perygl mawr o golli cymdeithas a chynnorthwy ei gydmares hawddgar a phrydweddol. Gen. 12. 14, 15, 16.

19. G. Pa fodd y gwaredwyd Abram o'r brofedigaeth danllyd hon?
A. Darfu i'r ARGLWYDD daro Pharao a'i dŷ â phläau o achos Sara, fel y gadawodd efe i Abram a'i holl eiddo fyned ymaith mewn heddwch. Gen. 12. 17, 18, 19, 20.

20. G. Pa wersi a ddysgir i ni yn yr amgylchiad hwn?
A. 1. Y dylid ofni DUW yn fwy nag ofni dyn,

am fod ofn dyn yn aml yn dwyn magl gydag ef.

2. Y dylai dynion bob amser, ac yn neillduol mewn amgylchiadau o bwys, ymgynghori â'r ARGLWYDD. Diffyg gwneud hyn fu'n achos i Abram syrthio i brofedigaeth mor chwerw ac mor beryglus.

3. Fod y dynion mwyaf duwiol, os cânt eu gadael iddynt eu hunain, yn debyg i ymollwng i'r profedigaethau gwaethaf, a thrwy hyny arwain eu hunain i helbul a gorthrymder.

4. Fod llithriadau duwiolion yn effeithio yn ddrwg ar eraill. Diddadl fod ymddygiad Abram yn hyn, yn achlysur i galedu ei deulu—i arwain ei wraig i wyneb y brofedigaeth—a bron agor y drws i'r pechod mwyaf gwarthus dori i mewn i lŷs Pharao.

5. Fod yr ARGLWYDD bob amser, yn ei ddaionus diriondeb, yn ymddwyn tuagat ei bobl yn well na'u hofnau ac yn well na'u haeddiant.

6. Y gall yr ARGLWYDD oruwch-lywodraethu drwg i fod er daioni. Gellir casglu fod y tro hwn yn foddion i atal Abram i ymgysylltu â'r Aiphtiaid, ac i beri iddo ddychwelyd yn ol i Wlad yr Addewid.

21. G. I ba le y tröodd Abram ei wyneb pan ollyngwyd ef ymaith o'r Aipht?

A. Efe a ymdeithiodd tua'r dehau. Gen. 13. 1.

22. G. Pa hanes pellach a roddir i ni am ei deithiau?

A. Dywedir iddo ddyfod hyd yn Bethel, lle y buasai efe cyn hyny, ac iddo wersyllu yno, a galw ar enw yr ARGLWYDD. Gen. 13. 3, 4.

23. G. A oes un crybwylliad yn cael ei wneuthur am gyfoeth Abram?

A. Oes: dywedir ei fod yn gyfoethog iawn. Gen. 13. 2.

24. G. Pa beth yn neillduol a gymerodd le tra bu Abram yn Bethel y tro hwn?

A. Yno y darfu i Lot ei nai ac yntau ymadael â'u gilydd. Gen. 13. 11.

25. G. Beth oedd yr achos o'u hymadawiad?

A. Amldra eu cyfoeth, a chynnen rhwng eu bugeiliaid. Gen. 13. 5, 6, 7, 8, 9, 10.

26. G. Pa addysgiadau allwn ni gasglu oddiwrth yr amgylchiad galarus hwn?

A. 1. Fod amlhâd cyfoeth yn fynych yn achlysuro anghydfod rhwng cyfeillion a chymydogion.

2. Fod rhwygiadau galarus weithiau yn *dechreu* mewn pethau bychain a dibwys. Gellir casglu mai dadl yn nghylch ffynon o ddwfr, neu ddarn o borfa, fu'n achos o'r rhwygiad hwn.

3. Fod tân anghydfod yn cael ei fynych gynneu mewn teuluoedd a chymdeithasau gan yr aelodau *lleiaf* ynddynt. Cynnen rhwng y ddau *fugail* barodd i Abram a Lot ymadael.

4. Fod pob dyn call a da yn ofni anghydfod yn fwy na dim. Yr oedd Abram dduwiol yn foddlon i aberthu bron bob peth i'r dyben i atal anghydfod. "*Atolwg*," meddai ef wrth Lot, "na fydded cynnen rhyngof fi â thi."

5. Mai y dynion *callaf* y'mhob cynnen sy'n son *gyntaf* am gymmodi.

6. Mai y funud *gyntaf* i ddiffodd cynnen ydyw'r *oreu*. Mae'n debyg, pe buasai Abram yn goddef i'r ddadl gynnyddu, y buasai yn terfynu mewn tywallt gwaed a cholli bywyd.

7. Fod anghariad rhwng crefyddwyr yn peri i elynion crefydd gablu. Yr oedd Abram yn ofni cynnen, rhag y buasai y Canaaneaid, ag oeddynt yn trigo yn eu hymyl, yn gwawdio crefydd o'u hachos hwy.

8. Fod anghydfod mewn unrhyw gymdeithas yn ei gwanhau i wynebu y *gelyn cyffredin*. Pe arhosasai Lot gydag Abram, ni chawsai ei anrheithio gan y gelynion.

9. Fod ieuenctyd yn aml, a hyny mewn

amgylchiadau o bwys, yn gwneud dewisiad annoeth, o ddiffyg ymgynghori â chyfeillion ac â pherthynasau duwiol. Gellir barnu i Lot golli ei le trwy ymadael mor fyrbwyll âg Abram, heb ofyn ei gyngor, na cheisio rhan yn ei weddi.

10. Mai braint annhraethol i ieuenctyd ydyw mwynhau cymdeithas a chyfarwyddyd dynion yn ofni DUW. Tra bu Lot gydag Abram yr oedd yn llwyddiannus a dedwydd, a gellir barnu i argraph ei gynghorion duwiol lynu wrtho drwy ei oes.

27\. G. A roddodd yr ARGLWYDD ryw amlygiad pellach o'i drugaredd i Abram wedi i Lot ymadael âg ef?

A. Do: efe a adnewyddodd ei gyfammod âg ef. Gen. 13. 14, 15, 16, 17.

28\. G. I ba le y symudodd Abram o Bethel y tro hwn?

A. I wastadedd Mamre. Gen. 13. 18.

29\. G. Beth ydyw yr hanes nesaf a roddir i ni am Abram?

A. Ei waith yn arfogi ei weision hyfforddus i ryfel. Gen. 14. 14.

30\. G. Beth oedd yr achos i Abram fyned allan i ryfel?

A. Clywed i frenin Elam a'i fyddinoedd anrheithio Lot ei nai, wrth ryfela yn erbyn brenin Sodoma a'i gymydogion. Gen. 14. 12.

31\. G. A lwyddodd Abram a'i deulu yn erbyn byddinoedd gallüog brenin Elam?

A. Do: efe a'u hymlidiodd, ac a'u tarawodd, ac a ddûg oddiarnynt Lot a'i gyfoeth, a'r hyn oll a gaethgludasent. Gen. 14. 15, 16.

32\. G. Pa fodd yr ymddygodd Abram ar ol y fuddugoliaeth hon?

A. 1. Efe a dderbyniodd yn ddiolchgar gyfarchiad Melchisedec, brenin Salem, ac a roddodd iddo ddegwm o'r cwbl. Gen. 14. 18, 19, 20.

2. Efe a ddychwelodd yn ol ei holl gyfoeth i frenin Sodoma. Gen. 14. 22, 23.

33. G. Pa wersi allwn ni ddysgu oddiwrth yr amgylchiad hynod hwn yn hanes Abram?

A. 1. Fod Abram yn wr mawr a galluog, gan fod ganddo yn ei dŷ dri chant a deunaw o weision parod i ryfel.

2. Fod Abram yn cadw trefn dda yn ei dŷ. Dywedir fod y gweision hyn yn *hyfforddus*, a diddadl eu bod yn *ufudd*.

3. Er fod rhyfel yn un o effeithiau mwyaf andwyol pechod, eto nad yw crefydd ddim yn gwahardd dynion i wisgo'r cleddyf, os bydd raid, i amddiffyn cyfiawnder.

4. Nad yw gras a duwioldeb, mewn un gradd, yn diffodd medr a gwroldeb. Danghosodd Abram dduwiol yn yr amgylchiad hwn gymaint o wroldeb ag Alexander Fawr, a chymaint o fedr mewn rhyfel a'r dewraf o Cesariaid Rhufain.

5. Fod estyn llaw o gymhorth i'r gorthrymedig, pan mewn cyfyngder, yn gyson âg egwyddorion crefydd. Darfu i Abram wared y *Sodomiaid* o dan iau caethiwed, er mai dynion *drwg* oeddynt.

6. Fod rhwymau *deublyg* ar gyfeillion *crefyddol*, ac yn neillduol *perthynasau* crefyddol, i gynnorthwyo eu gilydd pan mewn cyfyngder. Gwared ei *nai*, *Lot*, oedd y peth penaf yn ngolwg Abram yn yr ymgyrch hwn..

7. Na ddylai dynion, pan mewn gallu ac awdurdod, gymeryd cyfleusdra oddiwrth hyny i gasglu elw anghyfiawn oddiar weiniaid mewn gorthrymder. Buasai yn hawdd i Abram gadw cyfoeth brenin Sodoma, ond dychwelodd y cwbl yn y modd mwyaf haelfrydig.

8. Nad yw ddim yn waharddedig i grefyddwyr gyd-uno â dynion digrefydd i wneud *da*. Yr oedd Abram mewn cyngrair âg Aner, Escol, a Mamre, yn yr amgylchiad hwn, er nad oes genym fawr o le i gasglu

fod y tri brawd hyn yn feddiannol ar ffydd Abram.

9. Y dylid argeisio cyfarwyddyd yr ARGLWYDD wrth ymosod ar bob dyledswydd, a'i gydnabod mewn ysbryd diolchgar am bob gwaredigaeth. Darfu i Abram yma "ddyrchafu ei law" at DDUW am gynnorthwy wrth *gychwyn* i'r frwydr, a rhoddi iddo "ddegwm o'r cwbl" wrth *ddychwelyd* mewn heddwch.

10. Fod ymdrechiadau da yn sicr o gael eu coroni â llwyddiant.

11. Fod ymdrechiadau dynion da i wneuthur da yn sicr o effeithio yn dda ar eraill. Diddadl fod son mawr am grefydd Abram, ac am DDUW Abram, mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth hon, yn yr holl wlad o amgylch.

34. G. Pa hanes a roddir i ni am Abram ar ol y fuddugoliaeth hynod hon?

A. Ymddanghosodd yr ARGLWYDD iddo, gan addo ei ddiogelu a'i wneuthur yn ddedwydd. Gen. 15. 1.

35. G. Pa fodd yr ymddygodd Abram ar ol derbyn yr addewid werthfawr hon?

A. Ail-adroddodd ei gŵyn alarus wrth DDUW ei fod yn tynu tua'r bedd yn ddiblant, gydà dymuniad am gael etifedd. Gen. 15. 2, 3.

36. G. A dderbyniodd Abram ryw atebiad i'r dymuniad hwn?

A. Do: addawyd iddo etifedd, ac y byddai ei hâd fel y sêr yn ddirifedi. Gen. 15. 4, 5.

37. G. A gredodd Abram yr addewid hon?

A. Do. Gen. 15. 6.

38. G. A roddodd yr ARGLWYDD ryw arwydd i Abram y byddai i'r addewid hon gael ei chyflawnu?

A. Do: efe a orchymynodd iddo gymeryd anner, a gafr, a hwrdd, a'u hollti ar hyd y canol yn ol y ddefod gynt o sicrhau cyfammodau. Gen. 15. 9, 10.

39. G. Pa fodd y byddid yn arferol o gadarnhau cyfammodau yn y dyddiau hyny?

A. Byddid yn hollti yr ebyrth gan osod y rhanau ar gyfer eu gilydd, ac yna byddai y pleidiau yn myned rhwng y rhanau fel arwydd fod y cytundeb wedi ei sicrhau a'i orphen. Ier. 34. 18, 19.

40. G. A ymostyngodd yr ARGLWYDD i gadarnhau y cyfammod yn y modd hyn âg Abram?

A. Do. Gen. 15. 17, 18.

41. G. Pa beth a gymerodd le tra y bu Abram yn disgwyl am yr arwydd hon?

A. Syrthiodd trymgwsg arno, a chafodd amlygiad, mewn gweledigaeth, o waredigaeth ei hâd o gaethiwed yr Aipht, ac y byddai iddo ef ei hun gael ei gasglu at ei dadau mewn heddwch ac mewn oedran têg. Gen. 15. 12, 13, 14, 15, 16.

42. G. A gyflawnwyd yr addewid am fab i Abram mewn modd uniongyrchiol?

A. Na ddo. Gen. 16. 1.

43. G. Pa fodd yr ymddygodd Abram yn ngwyneb hyn?

A. Darfu iddo, ar gais Sara, yn lle ymgynghori â'r ARGLWYDD, a disgwyl ei amser ef, gymeryd Hagar yr Aiphtes yn wraig iddo. Gen. 16. 2.

44. G. A fu y tro byrbwyll hwn yn achos o ryw ganlyniadau drwg i Abram?

A. Do: magodd hyn anghydfod chwerw iawn yn ei deulu. Gen. 16. 14, 15.

45. G. Beth fu y canlyniad o'r anghydfod hwn?

A. Gorfu i Hagar ffoi rhag wyneb Sara ei meistres. Gen. 16. 6.

46. G. Beth ddaeth o Hagar yn y cyflwr annedwydd hwn?

A. Cafwyd hi gan angel wrth ffynon o ddwfr yn yr anialwch. Gen. 16. 7.

47. G. Pa gyngor a roddodd yr angel iddi?

A. Efe a'i hannogodd i ddychwelyd. Gen. 16. 8, 9.

48. G. A weinyddodd yr angel unrhyw gysur iddi?
A. Do: dywedodd wrthi fod yr ARGLWYDD wedi sylwi ar ei chystudd, y byddai iddi esgor ar fab, ac y byddai ei hâd yn dra llüosog. Gen. 16. 10, 11, 15.

49. G. Pa addysgiadau allwn ni gasglu oddiwrth yr amgylchiad galarus hwn yn hanes Abram?
A. 1. Fod gwendidau yn perthyn i'r goreu o ddynion; a'u bod yn agored i gyfeiliorni pan yn ymddiried i'w deall eu hun.
2. Na ddylid gwneuthur dim mewn modd byrbwyll, ac heb ymgynghori â DUW.
3. Y dylid disgwyl yn amyneddgar am amser DUW i gyflawnu ei addewidion, gan gredu mai ei drefn ef yw'r drefn oreu.
4. Fod profedigaethau weithiau yn cyfarfod duwiolion oddiwrth eu cyfeillion a'u perthynasau anwylaf. Cafodd Abram ei arwain i'r brofedigaeth hon gan Sara, priod ei fynwes.
5. Fod profedigaethau weithiau yn ymgynnyg i'r meddwl o'r manau y gellid leiaf eu disgwyl. Gallesid meddwl mai Sara fuasai yr olaf o bawb i annog Abram i gymeryd Hagar yn wraig.
6. Fod dyn, pan wedi ei arwain ei hun i ofidiau, yn rhy dueddol i rwgnach, a bwrw yr holl fai at ddrws arall. Y mae Sara yma, yn lle ystyried yn edifeiriol fod llaw ganddi hi yn nygiad y groes i'r teulu, yn priodoli y bai i Abram, gan ddywedyd yn rwgnachlyd, "Bydded fyngham i arnat ti."
7. Gwelir yn ymddygiad trahaus Hagar tuagat ei meistres, fod derchafiad weithiau yn achlysur i ddynion ymfalchïo, a myned yn anhawdd eu trîn.
8. Gwelir yn ymddygiad Sara tuagat Hagar, fod dynion, pan yn ymollwng i nwydau drwg, yn debyg o farnu ac ymddwyn yn afresymol a byrbwyll. Ac yn
9. Fod croesau yn aml yn fendithiol i ddwyn

dynion i'w lle. Darfu i Hagar dan y groes gael ei dwyn i gydnabod DUW, i weddio arno, ac i droi at ei dyledswydd.

50. G. Pa bryd y ganwyd mab i Hagar?

A. Pan oedd Abram yn fab pedwar ugain mlwydd a chwech. Gen. 16. 16.

51. G. A effeithiodd y pechod teuluaidd hwn ar brofiad crefyddol Abram?

A. Do: collodd mewn rhan gymdeithas ei DDUW, canys nid oes hanes i'r ARGLWYDD ymddangos iddo dros hir flynyddoedd wedi hyny. Gen. 17. 1.

52. G. Pa fodd yr ymddygodd Abram yn ngwyneb yr ail-ymweliad hwn?

A. Mewn modd gostyngedig iawn. Gen. 17. 3.

53. G. Pa beth a gymerodd le yn y gymdeithas hon?

A. 1. Cadarnhawyd y cyfammod yn ei holl ganghenau. Gen. 17. 6, 7, 8.

2. Newidiwyd enwau Abram a Sara. Galwyd Abram yn Abra*ham*, i arwyddo y byddai yn dad cenhedloedd lawer; a Sara yn Sara*i*, i arwyddo y byddai yn dywysoges enwog. Gen. 17. 5, 15.

3. Sefydlwyd deddf yr enwaediad i fod yn arwydd y cyfammod. Gen. 17. 11.

54. G. Pwy oedd i gael eu henwaedu?

A. Pob gwrryw o'r genedl y'nghyd â phlant proselytiaid. Gen. 17. 10, 13.

55. G. Pa bryd yr oeddynt i dderbyn arwydd y cyfammod?

A. Pan yn wyth niwrnod oed. Gen. 17. 12.

56. G. A oedd rhyw berygl i rïeni beidio enwaedu eu plant yn amser DUW?

A. Oedd: bu esgeuluso hyn bron yn achos i Moses, gwr DUW, farw dan y farn. Ecs. 4. 24, 25.

57. G. Beth fyddai y canlyniad os byddai i ryw un, pan heb ei enwaedu yn faban, wrthod yr arwydd pan wedi tyfu i oedran?

A. Marwolaeth. Gen. 17. 14.

58. G. A ufuddhäodd Abraham i'r ddeddf hon?

A. Do—mewn modd uniongyrchiol, ewyllysgar, a chyflawn. Gen. 17. 23.

am fod ofn dyn yn aml yn dwyn magl gydag ef.

2. Y dylai dynion bob amser, ac yn neillduol mewn amgylchiadau o bwys, ymgynghori â'r ARGLWYDD. Diffyg gwneud hyn fu'n achos i Abram syrthio i brofedigaeth mor chwerw ac mor beryglus.

3. Fod y dynion mwyaf duwiol, os cânt eu gadael iddynt eu hunain, yn debyg i ymollwng i'r profedigaethau gwaethaf, a thrwy hyny arwain eu hunain i helbul a gorthrymder.

4. Fod llithriadau duwiolion yn effeithio yn ddrwg ar eraill. Diddadl fod ymddygiad Abram yn hyn, yn achlysur i galedu ei deulu—i arwain ei wraig i wyneb y brofedigaeth—a bron agor y drws i'r pechod mwyaf gwarthus dori i mewn i lŷs Pharao.

5. Fod yr ARGLWYDD bob amser, yn ei ddaionus diriondeb, yn ymddwyn tuagat ei bobl yn well na'u hofnau ac yn well na'u haeddiant.

6. Y gall yr ARGLWYDD oruwch-lywodraethu drwg i fod er daioni. Gellir casglu fod y tro hwn yn foddion i atal Abram i ymgysylltu â'r Aiphtiaid, ac i beri iddo ddychwelyd yn ol i Wlad yr Addewid.

21\. G. I ba le y tröodd Abram ei wyneb pan ollyngwyd ef ymaith o'r Aipht?

A. Efe a ymdeithiodd tua'r dehau. Gen. 13. 1.

22\. G. Pa hanes pellach a roddir i ni am ei deithiau?

A. Dywedir iddo ddyfod hyd yn Bethel, lle y buasai efe cyn hyny, ac iddo wersyllu yno, a galw ar enw yr ARGLWYDD. Gen. 13. 3, 4.

23\. G. A oes un crybwylliad yn cael ei wneuthur am gyfoeth Abram?

A. Oes: dywedir ei fod yn gyfoethog iawn. Gen. 13. 2.

24\. G. Pa beth yn neillduol a gymerodd le tra bu Abram yn Bethel y tro hwn?

A. Yno y darfu i Lot ei nai ac yntau ymadael â'u gilydd. Gen. 13. 11.

25. G. Beth oedd yr achos o'u hymadawiad?

A. Amldra eu cyfoeth, a chynnen rhwng eu bugeiliaid. Gen. 13. 5, 6, 7, 8, 9, 10.

26. G. Pa addysgiadau allwn ni gasglu oddiwrth yr amgylchiad galarus hwn?

A. 1. Fod amlhâd cyfoeth yn fynych yn achlysuro anghydfod rhwng cyfeillion a chymydogion.

2. Fod rhwygiadau galarus weithiau yn *dechreu* mewn pethau bychain a dibwys. Gellir casglu mai dadl yn nghylch ffynon o ddwfr, neu ddarn o borfa, fu'n achos o'r rhwygiad hwn.

3. Fod tân anghydfod yn cael ei fynych gynneu mewn teuluoedd a chymdeithasau gan yr aelodau *lleiaf* ynddynt. Cynnen rhwng y ddau *fugail* barodd i Abram a Lot ymadael.

4. Fod pob dyn call a da yn ofni anghydfod yn fwy na dim. Yr oedd Abram dduwiol yn foddlon i aberthu bron bob peth i'r dyben i atal anghydfod. "*Atolwg*," meddai ef wrth Lot, "na fydded cynnen rhyngof fi â thi."

5. Mai y dynion *callaf* y'mhob cynnen sy'n son *gyntaf* am gymmodi.

6. Mai y funud *gyntaf* i ddiffodd cynnen ydyw'r *oreu*. Mae'n debyg, pe buasai Abram yn goddef i'r ddadl gynnyddu, y buasai yn terfynu mewn tywallt gwaed a cholli bywyd.

7. Fod anghariad rhwng crefyddwyr yn peri i elynion crefydd gablu. Yr oedd Abram yn ofni cynnen, rhag y buasai y Canaaneaid, ag oeddynt yn trigo yn eu hymyl, yn gwawdio crefydd o'u hachos hwy.

8. Fod anghydfod mewn unrhyw gymdeithas yn ei gwanhau i wynebu y *gelyn cyffredin*. Pe arhosasai Lot gydag Abram, ni chawsai ei anrheithio gan y gelynion.

9. Fod ieuenctyd yn aml, a hyny mewn

amgylchiadau o bwys, yn gwneud dewisiad annoeth, o ddiffyg ymgynghori â chyfeillion ac â pherthynasau duwiol. Gellir barnu i Lot golli ei le trwy ymadael mor fyrbwyll âg Abram, heb ofyn ei gyngor, na cheisio rhan yn ei weddi.

10. Mai braint annhraethol i ieuenctyd ydyw mwynhau cymdeithas a chyfarwyddyd dynion yn ofni DUW. Tra bu Lot gydag Abram yr oedd yn llwyddiannus a dedwydd, a gellir barnu i argraph ei gynghorion duwiol lynu wrtho drwy ei oes.

27. G. A roddodd yr ARGLWYDD ryw amlygiad pellach o'i drugaredd i Abram wedi i Lot ymadael âg ef?
A. Do: efe a adnewyddodd ei gyfammod âg ef. Gen. 13. 14, 15, 16, 17.

28. G. I ba le y symudodd Abram o Bethel y tro hwn?
A. I wastadedd Mamre. Gen. 13. 18.

29. G. Beth ydyw yr hanes nesaf a roddir i ni am Abram?
A. Ei waith yn arfogi ei weision hyfforddus i ryfel. Gen. 14. 14.

30. G. Beth oedd yr achos i Abram fyned allan i ryfel?
A. Clywed i frenin Elam a'i fyddinoedd anrheithio Lot ei nai, wrth ryfela yn erbyn brenin Sodoma a'i gymydogion. Gen. 14. 12.

31. G. A lwyddodd Abram a'i deulu yn erbyn byddinoedd gallüog brenin Elam?
A. Do: efe a'u hymlidiodd, ac a'u tarawodd, ac a ddûg oddiarnynt Lot a'i gyfoeth, a'r hyn oll a gaethgludasent. Gen. 14. 15, 16.

32. G. Pa fodd yr ymddygodd Abram ar ol y fuddugoliaeth hon?
A. 1. Efe a dderbyniodd yn ddiolchgar gyfarchiad Melchisedec, brenin Salem, ac a roddodd iddo ddegwm o'r cwbl. Gen. 14. 18, 19, 20.
2. Efe a ddychwelodd yn ol ei holl gyfoeth i frenin Sodoma. Gen. 14. 22, 23.

33. G. Pa wersi allwn ni ddysgu oddiwrth yr amgylchiad hynod hwn yn hanes Abram?

A. 1. Fod Abram yn wr mawr a galluog, gan fod ganddo yn ei dŷ dri chant a deunaw o weision parod i ryfel.

2. Fod Abram yn cadw trefn dda yn ei dŷ. Dywedir fod y gweision hyn yn *hyfforddus*, a diddadl eu bod yn *ufudd*.

3. Er fod rhyfel yn un o effeithiau mwyaf andwyol pechod, eto nad yw crefydd ddim yn gwahardd dynion i wisgo'r cleddyf, os bydd raid, i amddiffyn cyfiawnder.

4. Nad yw gras a duwioldeb, mewn un gradd, yn diffodd medr a gwroldeb. Danghosodd Abram dduwiol yn yr amgylchiad hwn gymaint o wroldeb ag Alexander Fawr, a chymaint o fedr mewn rhyfel a'r dewraf o Cesariaid Rhufain.

5. Fod estyn llaw o gymhorth i'r gorthrymedig, pan mewn cyfyngder, yn gyson âg egwyddorion crefydd. Darfu i Abram wared y *Sodomiaid* o dan iau caethiwed, er mai dynion *drwg* oeddynt.

6. Fod rhwymau *deublyg* ar gyfeillion *crefyddol*, ac yn neillduol *perthynasau* crefyddol, i gynnorthwyo eu gilydd pan mewn cyfyngder. Gwared ei *nai*, *Lot*, oedd y peth penaf yn ngolwg Abram yn yr ymgyrch hwn.

7. Na ddylai dynion, pan mewn gallu ac awdurdod, gymeryd cyfleusdra oddiwrth hyny i gasglu elw anghyfiawn oddiar weiniaid mewn gorthrymder. Buasai yn hawdd i Abram gadw cyfoeth brenin Sodoma, ond dychwelodd y cwbl yn y modd mwyaf haelfrydig.

8. Nad yw ddim yn waharddedig i grefyddwyr gyd-uno â dynion digrefydd i wneud *da*. Yr oedd Abram mewn cyngrair âg Aner, Escol, a Mamre, yn yr amgylchiad hwn, er nad oes genym fawr o le i gasglu

fod y tri brawd hyn yn feddiannol ar ffydd Abram.

9. Y dylid argeisio cyfarwyddyd yr ARGLWYDD wrth ymosod ar bob dyledswydd, a'i gydnabod mewn ysbryd diolchgar am bob gwaredigaeth. Darfu i Abram yma "ddyrchafu ei law" at DDUW am gynnorthwy wrth *gychwyn* i'r frwydr, a rhoddi iddo "ddegwm o'r cwbl" wrth *ddychwelyd* mewn heddwch.

10. Fod ymdrechiadau da yn sicr o gael eu coroni â llwyddiant.

11. Fod ymdrechiadau dynion da i wneuthur da yn sicr o effeithio yn dda ar eraill. Diddadl fod son mawr am grefydd Abram, ac am DDUW Abram, mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth hon, yn yr holl wlad o amgylch.

34. G. Pa hanes a roddir i ni am Abram ar ol y fuddugoliaeth hynod hon?

A. Ymddanghosodd yr ARGLWYDD iddo, gan addo ei ddiogelu a'i wneuthur yn ddedwydd. Gen. 15. 1.

35. G. Pa fodd yr ymddygodd Abram ar ol derbyn yr addewid werthfawr hon?

A. Ail-adroddodd ei gŵyn alarus wrth DDUW ei fod yn tynu tua'r bedd yn ddiblant, gydà dymuniad am gael etifedd. Gen. 15. 2, 3.

36. G. A dderbyniodd Abram ryw atebiad i'r dymuniad hwn?

A. Do: addawyd iddo etifedd, ac y byddai ei hâd fel y sêr yn ddirifedi. Gen. 15. 4, 5.

37. G. A gredodd Abram yr addewid hon?

A. Do. Gen. 15. 6.

38. G. A roddodd yr ARGLWYDD ryw arwydd i Abram y byddai i'r addewid hon gael ei chyflawnu?

A. Do: efe a orchymynodd iddo gymeryd anner, a gafr, a hwrdd, a'u hollti ar hyd y canol yn ol y ddefod gynt o sicrhau cyfammodau. Gen. 15. 9, 10.

39. G. Pa fodd y byddid yn arferol o gadarnhau cyfammodau yn y dyddiau hyny?

A. Byddid yn hollti yr ebyrth gan osod y rhanau ar gyfer eu gilydd, ac yna byddai y pleidiau yn myned rhwng y rhanau fel arwydd fod y cytundeb wedi ei sicrhau a'i orphen. Ier. 34. 18, 19.

40. G. A ymostyngodd yr ARGLWYDD i gadarnhau y cyfammod yn y modd hyn âg Abram?

A. Do. Gen. 15. 17, 18.

41. G. Pa beth a gymerodd le tra y bu Abram yn disgwyl am yr arwydd hon?

A. Syrthiodd trymgwsg arno, a chafodd amlygiad, mewn gweledigaeth, o waredigaeth ei hâd o gaethiwed yr Aipht, ac y byddai iddo ef ei hun gael ei gasglu at ei dadau mewn heddwch ac mewn oedran têg. Gen. 15. 12, 13, 14, 15, 16.

42. G. A gyflawnwyd yr addewid am fab i Abram mewn modd uniongyrchiol?

A. Na ddo. Gen. 16. 1.

43. G. Pa fodd yr ymddygodd Abram yn ngwyneb hyn?

A. Darfu iddo, ar gais Sara, yn lle ymgynghori â'r ARGLWYDD, a disgwyl ei amser ef, gymeryd Hagar yr Aiphtes yn wraig iddo. Gen. 16. 2.

44. G. A fu y tro byrbwyll hwn yn achos o ryw ganlyniadau drwg i Abram?

A. Do: magodd hyn anghydfod chwerw iawn yn ei deulu. Gen. 16. 14, 15.

45. G. Beth fu y canlyniad o'r anghydfod hwn?

A. Gorfu i Hagar ffoi rhag wyneb Sara ei meistres. Gen. 16. 6.

46. G. Beth ddaeth o Hagar yn y cyflwr annedwydd hwn?

A. Cafwyd hi gan angel wrth ffynon o ddwfr yn yr anialwch. Gen. 16. 7.

47. G. Pa gyngor a roddodd yr angel iddi?

A. Efe a'i hannogodd i ddychwelyd. Gen. 16. 8, 9.

48. G. A weinyddodd yr angel unrhyw gysur iddi?
A. Do: dywedodd wrthi fod yr ARGLWYDD wedi sylwi ar ei chystudd, y byddai iddi esgor ar fab, ac y byddai ei hâd yn dra llüosog. Gen. 16. 10, 11, 15.

49. G. Pa addysgiadau allwn ni gasglu oddiwrth yr amgylchiad galarus hwn yn hanes Abram?
A. 1. Fod gwendidau yn perthyn i'r goreu o ddynion; a'u bod yn agored i gyfeiliorni pan yn ymddiried i'w deall eu hun.
2. Na ddylid gwneuthur dim mewn modd byrbwyll, ac heb ymgynghori â DUW.
3. Y dylid disgwyl yn amyneddgar am amser DUW i gyflawnu ei addewidion, gan gredu mai ei drefn ef yw'r drefn oreu.
4. Fod profedigaethau weithiau yn cyfarfod duwiolion oddiwrth eu cyfeillion a'u perthynasau anwylaf. Cafodd Abram ei arwain i'r brofedigaeth hon gan Sara, priod ei fynwes.
5. Fod profedigaethau weithiau yn ymgynnyg i'r meddwl o'r manau y gellid leiaf eu disgwyl. Gallesid meddwl mai Sara fuasai yr olaf o bawb i annog Abram i gymeryd Hagar yn wraig.
6. Fod dyn, pan wedi ei arwain ei hun i ofidiau, yn rhy dueddol i rwgnach, a bwrw yr holl fai at ddrws arall. Y mae Sara yma, yn lle ystyried yn edifeiriol fod llaw ganddi hi yn nygiad y groes i'r teulu, yn priodoli y bai i Abram, gan ddywedyd yn rwgnachlyd, "Bydded fyngham i arnat ti."
7. Gwelir yn ymddygiad trahaus Hagar tuagat ei meistres, fod derchafiad weithiau yn achlysur i ddynion ymfalchïo, a myned yn anhawdd eu trîn.
8. Gwelir yn ymddygiad Sara tuagat Hagar, fod dynion, pan yn ymollwng i nwydau drwg, yn debyg o farnu ac ymddwyn yn afresymol a byrbwyll. Ac yn
9. Fod croesau yn aml yn fendithiol i ddwyn

dynion i'w lle. Darfu i Hagar dan y groes gael ei dwyn i gydnabod DUW, i weddïo arno, ac i droi at ei dyledswydd.

50. G. Pa bryd y ganwyd mab i Hagar?

A. Pan oedd Abram yn fab pedwar ugain mlwydd a chwech. Gen. 16. 16.

51. G. A effeithiodd y pechod teuluaidd hwn ar brofiad crefyddol Abram?

A. Do: collodd mewn rhan gymdeithas ei DDUW, canys nid oes hanes i'r ARGLWYDD ymddangos iddo dros hir flynyddoedd wedi hyny. Gen. 17. 1.

52. G. Pa fodd yr ymddygodd Abram yn ngwyneb yr ail-ymweliad hwn?

A. Mewn modd gostyngedig iawn. Gen. 17. 3.

53. G. Pa beth a gymerodd le yn y gymdeithas hon?

A. 1. Cadarnhawyd y cyfammod yn ei holl ganghenau. Gen. 17. 6, 7, 8.

2. Newidiwyd enwau Abram a Sara. Galwyd Abram yn Abra*ham*, i arwyddo y byddai yn dad cenhedloedd lawer; a Sara yn Sara*i*, i arwyddo y byddai yn dywysoges enwog. Gen. 17. 5, 15.

3. Sefydlwyd deddf yr enwaediad i fod yn arwydd y cyfammod. Gen. 17. 11.

54. G. Pwy oedd i gael eu henwaedu?

A. Pob gwrryw o'r genedl y'nghyd â phlant proselytiaid. Gen. 17. 10, 13.

55. G. Pa bryd yr oeddynt i dderbyn arwydd y cyfammod?

A. Pan yn wyth niwrnod oed. Gen. 17. 12.

56. G. A oedd rhyw berygl i rïeni beidio enwaedu eu plant yn amser DUW?

A. Oedd: bu esgeuluso hyn bron yn achos i Moses, gwr DUW, farw dan y farn. Ecs. 4. 24, 25.

57. G. Beth fyddai y canlyniad os byddai i ryw un, pan heb ei enwaedu yn faban, wrthod yr arwydd pan wedi tyfu i oedran?

A. Marwolaeth. Gen. 17. 14.

58. G. A ufuddhäodd Abraham i'r ddeddf hon?

A. Do—mewn modd uniongyrchiol, ewyllysgar, a chyflawn. Gen. 17. 23.

59\. G. Pa addysgiadau allwn ni gasglu oddiwrth sefydliad yr ordinhâd hon?

A. 1. Gellir casglu mai nid sefydliad gwladol oedd enwaediad, ond *ordinhâd eglwysig* i fod yn arwydd o gyfammod rhwng Duw a dynion.

2\. Gellir casglu, gan fod arwydd y cyfammod yn perthyn i *fabanod* dan yr oruchwyliaeth gynt, fod gan *fabanod* hawl i'r arwydd sefydledig dan oruchwyliaeth yr Efengyl.

3\. Mai dyledswydd rhïeni ydyw cyflwyno eu plant i Dduw mewn modd cyhoeddus.

4\. Mai peth peryglus iawn ydyw esgeuluso ordinhadau crefyddol.

60\. G. A anghofiodd Abraham *Ismael*, pan gadarnhawyd yr addewid am *Isaac?*

A. Na ddo: taer weddïodd ar ei ran. Gen. 17. 18.

61\. G. A wrandawodd Duw weddi Abraham ar ran Ismael?

A. Do. Gen. 17. 20.

62\. G. A ymddanghosodd yr Arglwydd yn fuan ar ol hyn i Abraham?

A. Do—yn ngwastadedd Mamre. Pan oedd efe yn eistedd wrth ddrws ei babell, yn ngwres y dydd, i'r dyben i groesawu teithwyr lluddedig, daeth Angel mawr y cyfammod heibio, a dau o weinidogion ei lŷs gyd âg ef. Gen. 18. 1, 2.

63\. G. A ddanghosodd Abraham ryw garedigrwydd i'r dïeithriaid hyn?

A. Do: wedi ymgrymu mewn modd boneddigaidd, efe a'u gwahoddodd yn garedig i orphwys a bwyta. Gen. 18. 3, 4, 5.

64\. G. Pwy oedd yn parotoi y wledd?

A. Sarai, ac Abraham yn ei chynnorthwyo. Gen. 18. 6, 7.

65\. G. Pwy oedd yn gwasanaethu wrth y bwrdd?

A. Yr hen Abraham ei hun. Gen. 18. 8.

66\. G. Pa addysg allwn ni gasglu oddiwrth hyn?

A. 1. Y dylid dilyn lletygarwch.

2\. Nad ydyw crefydd byth yn llygru moesau da. Yr oedd cyfarchiad Abraham yn naturiol a charedig, a'i ymddygiad yn barchus a boneddigaidd.

3. Fod cymedroldeb mewn bwyta ac yfed yn ganmoladwy, a bod moethau yn afreidiol. Er bod Abraham yn wr mawr iawn, nid oedd yn y wledd hon ond bara a chig ac ymenyn a llaeth.

4. Mai afreidiol teulio llawer o amser i drin bwydydd: parotöwyd y wledd hon gyda'r brys mwyaf.

5. Mai nid dïanrhydedd i wr mawr ydyw bod yn wasanaethgar i eraill.

67. G. Pa ymddiddan fu rhwng Abraham â'r ymwelwyr nefol hyn?

A. Gofynasant yn garedig am Sarai ei wraig, gan sicrhau y byddi iddi fab o gylch amser bywiolaeth. Gen. 18. 9, 10.

68. G. Pa fodd yr ymddygodd Sarai yn ngwyneb y genadwri hon?

A. Hi a chwarddodd yn ddirmygus mewn ysbryd anghrediniol. Gen. 18. 11, 12.

69. G. A oedd hyn yn feïadwy yn Sarai?

A. Oedd. Gen. 18. 13.

70. G. A arweiniodd hyn Sarai i ryw ddyryswch pellach?

A. Do—i geisio gwadu ei bai, a thrwy hyny ei waethygu. Gen. 18. 15.

71. G. Pa addysg allwn ni gael oddiwrth hyn?

A. Mai ynfyd ceisio celu y pechodau dirgelaf oddiwrth Chwiliwr y galon.

72. G. Pa hanes pellach a roddir i ni am yr ymwelwyr nefol hyn?

A. Wedi darfod gwledda gyd âg Abraham cychwynasant tua Sodoma, ac aeth Abraham i'w hebrwng. Gen. 18. 16.

73. G. Pa gyfrinach fu rhyngddynt ar hyd y ffordd?

A. Amlygodd yr ARGLWYDD i Abraham ei fwriad i ddinystrio Sodoma a Gomora am eu pechod. Gen. 18. 20, 21.

74. G. A oedd yr amlygiad hwn yn arwydd o ryw barch i Abraham?

A. Oedd: yr oedd yn ddanghosiad ei fod yn anwyl gan DDUW. Gen. 18. 17, 18.

75. G. Paham y derbyniodd Abraham yr anrhydedd hwn?

A. O herwydd ei barodrwydd i ddysgu ei blant a'i dylwyth yn ffyrdd yr ARGLWYDD. Gen. 18. 19.

76. G. Pa fodd yr ymddygodd Abraham yn ngwyneb y cyhoeddiad o'r farn yn erbyn Sodoma?

A. Efe a eiriolodd drosti. Gen. 18. 23—33.

77. G. Pa addysgiadau allan ni godi oddiwrth gyfrinach yr angylion ac eiriolaeth Abraham?

A. 1. Mai y rhai mwyaf ffyddlon yn hyfforddu eu teuluoedd yn ffyrdd yr ARGLWYDD ydyw prif anwyliaid y nef.

2. Y dylai duwiolion fod yn daer mewn gweddi ar ran eu cymydogion annuwiol.

3. Fod hyder gostyngedig, a thaerineb ffyddiog, yn hanfodol i wir weddio.

4. Fod yr ARGLWYDD yn fawr ei amynedd, yn hwyrfrydig i lid, ac yn hoffi arbed. Darfyddodd taerineb Abraham o flaen amynedd DUW.

5. Fod duwiolion yn lles i'r byd. Arbedasid *pum* dinas pe cawsid ynddynt *ddeg* o ffyddloniaid.

78. G. Pa hanes pellach a roddir i ni am Abraham?

A. Dywedir iddo, mewn canlyniad i losgiad Sodoma, symud o Mamre, ac ymdaith yn Gerar. Gen. 20. 1.

79. G. A syrthiodd Abraham i ryw brofedigaeth tra yn Gerar?

A. Do: efe a *ail*-wadodd Sarai ei wraig, a bu mewn perygl o'i cholli, a hyny pan oedd yr addewid am fab iddynt ar gael ei chyflawnu. Gen. 20. 2.

80. G. Pa fodd y lluddiwyd y drwg, fu'n debyg, trwy hyn, o syrthio ar Abraham?

A. Darfu i DDUW, mewn breuddwyd, rybuddio Abimelec o'i berygl. Gen. 20. 3, 7.

81. G. A wrandawodd Abimelec ar orchymyn DUW?

A. Do: a dychwelodd Sarai i'w gwr mewn modd anrhydeddus. Gen. 20. 4, 14, 15, 16.

82. G. Beth fu y canlyniad o'r ufudd-dod hwn yn Abimelec?

A. Symudwyd y farn o'i dŷ mewn atebiad i weddi Abraham. Gen. 20. 17, 18.

83. G. Pa addysgiadau allwn ni gasglu oddiwrth y rhan yma o hanes Abraham?

A. 1. Fod gwendidau duwiolion yn cael eu coffa yn y Bibl er rhybudd i ni.

2. Y dylem fod yn ochelgar iawn yn erbyn y pechod mwyaf parod i'n hamgylchynu.

3. Mai peth peryglus iawn ydyw *cellwair* â phrofedigaethau. Dygodd hyn farn drom i deulu Abimelec.

4. Fod y pechod o odineb yn ffiaidd iawn yn ngolwg yr ARGLWYDD. Buasai y cyflawniad o hono yn achos marwolaeth i Abimelec a'i eiddo oll.

5. Nad oes dim mor beryglus a niweidio anwyliaid yr ARGLWYDD.

6. Mai braint annhraethol ydyw cael eu cymdeithas, a rhan yn eu gweddïau.

84. G. Beth yw yr hanes nesaf a roddir i ni am Abraham a Sarai?

A. Hanes cyflawniad yr addewid am fab iddynt. Gen. 21. 1, 2.

85. G. Pa fodd yr ymddygodd Abraham pan anwyd mab yr addewid?

A. Darfu iddo ei enwi ac enwaedu arno, yn ol gorchymyn DUW. Gen. 21. 3, 4.

86. G. Beth oedd profiad ac ymddygiad Sarai yn ngwyneb hyn?

A. Darfu iddi gydnabod DUW mewn ysbryd diolchgar, a magu ei mab ar ei bron gyd â llawenydd mawr. Gen. 21. 6, 7.

87. G. Beth oedd oedran Abraham a Sarai pan anwyd Isaac, mab yr addewid?

A. Yr oedd Abraham yn fab can mlwydd, a Sarai yn ferch deng mlwydd a phedwar ugain. Gen. 17. 17.

88. G. Pa hanes a roddir i ni am fabandod Isaac?

A. Dywedir ei fod yn fachgen cynnyddfawr, ac i Abraham wneuthur gwledd fawr ar ddydd ei ddiddyfniad. Gen. 21. 8.

89. G. Beth a gymerodd le yn y wledd hon?

A. Gellir casglu i Ismael mewn cenfigen watwor ei frawd bychan Isaac. Gen. 21. 9.

90. G. Beth fu'r canlyniad o hyn?
A. Darfu i Sarai lidio, a gorchymyn troi allan y gaeth-forwyn a'i mab. Gen. 21. 10.

91. G. Pa effaith gafodd hyn ar Abraham?
A. Parodd flinder mawr iddo. Gen. 21. 11.

92. G. Pa fodd yr ymddygodd Abraham yn ngwyneb y cyfyngder hwn?
A. Edrychodd at DDUW am gyfarwyddyd. Gen. 21. 12, 13.

93. G. A ddilynodd Abraham gyfarwyddyd yr ARGLWYDD?
A. Do: efe a ollyngodd ymaith Hagar a'i mab. Gen. 21. 14.

94. G. Beth ddaeth o Hagar ar ol hyn?
A. Crwydrodd mewn anialwch diffaith nes darfod y dwfr, ac yna gadawodd y bachgen i farw dan gysgod un o'r gwŷdd, gan droi o'r neilldu i wylo. Gen. 21. 15, 16.

95. G. Beth ddaeth o Hagar yn y cyfyngder hwn?
A. Daeth angel i'w chysuro. Cawsant ddwfr i'w llòni, cynnyddodd y bachgen, cymerodd ei fam un o ferched yr Aipht yn wraig iddo, ac aeth yn genhedlaeth fawr. Gen. 21. 17—21.

96. G. Pa addysgiadau allwn ni gasglu oddiwrth hyn?
A. 1. Y bydd DUW yn sicr o gyflawnu ei holl addewidion yn ei amser da ei hun.
2. Y canfyddir gogoniant, ac y rhyfeddir daioni, holl amcanion DUW pan eu dygir o amgylch.
3. Mai peth galarus iawn ydyw cenfigen ac anghydfod rhwng brodyr.
4. Y dylai y brodyr hynaf fod yn dyner o'u brodyr ïeuangaf, ac nid eu gwatwor.
5. Fod camymddygiadau plant yn peri blinder i rïeni duwiol.
6. Fod effeithiau galarus yn gyffredin yn *hir* ddilyn camymddygiadau teuluaidd.

97. G. A oes rhyw ddefnydd addysgiadol yn cael ei wneuthur o hyn yn y Testament Newydd?
A. Oes: dywed yr apostol fod y pethau hyn, mewn aralleg *(allegory)*, yn dangos y gwahaniaeth ysbryd sydd rhwng plant y ddeddf

ac etifeddion yr addewid. Galat. 4. 22—26.

98. G. Pa hanes pellach a roddir i ni am Abraham?
A. O gylch yr amser hwn daeth Abimelec, brenin Gerar, a Phicol, tywysog ei lu, i ymweled âg ef, gan ddymuno gwneuthur cyngrair âg ef. Gen. 21. 22, 23.

99. G. A gydsyniodd Abraham â chais Abimelec?
A. Do. Gen. 21. 24, 27.

100. G. Pa addysgiadau allwn ni gael oddiwrth hyn?
A. 1. Fod dynion call a duwiol yn debyg o gael parch gan eu cymydogion.
2. Fod dynion call a duwiol am ddilyn heddwch â phawb.

101. G. A ymddanghosodd yr ARGLWYDD i Abraham wedi y pethau hyn?
A. Do. Gen. 22. 1.

102. G. Pa genadwri oedd ganddo y tro hwn?
A. Gorchymyn iddo aberthu ei unig fab Isaac. Gen. 22. 2.

103. G. Pa fodd yr ymddygodd Abraham yn ngwyneb hyn?
A. Heb yngan gair, efe a forau-gododd ac a gychwynodd i'r daith orchymynedig. Gen. 22. 3, 4.

104. G. Pan welodd Abraham y lle, pa orchymyn a roddodd efe i'w lanciau?
A. Gen. 22. 5.

105. G. A aeth Abraham ac Isaac rhagddynt ar ol gadael y llanciau?
A. Do: un yn dwyn y coed, a'r llall y tân a'r gyllell. Gen. 22. 6.

106. G. Pa ymddiddan fu rhyngddynt ar hyd y ffordd?
A. Gen. 22. 7, 8.

107. G. Wedi iddynt gyraedd y lle appwyntiedig, beth fu'r canlyniad?
A. Codi'r allor, trefnu'r coed, rhwymo Isaac, a chymeryd y gyllell i'w ladd. Gen. 22. 9, 10.

108. G. A oedd pob peth weithian yn barod?
A. Oedd: ond cyn i Abraham daro yr ergyd, daeth gorchymyn o'r nef iddo atal ei law. Gen. 22. 11, 12, 13.

109. G. Pa addysg allwn ni weled oddiwrth hyn?

i'w rhïeni, neu yn groes i'w hewyllys. *Cyngor* Abraham oedd rhëol y gwas yn y peth hwn, a *lles* Isaac oedd yn ei olwg.
3. Na ddylid rhuthro yn anystyriol i'r ystâd brïodasol. Yr oedd Isaac yn llawn deugain mlwydd oed cyn prïodi.
4. Mai peth peryglus iawn ydyw ymgyfathrachu â gelynion crefydd. Yr oedd Abraham yn ofni yn fawr i Isaac gymeryd gwraig o ferched y Canaanëaid eilun-addolgar.

120. G. Pa hanes pellach a roddir i ni am Abraham?
A. 1. Ei ail-brïodas a'i blant. Gen. 25. 1, 2.
2. Ei gymyn-roddion, a threfniad ei dŷ. Gen. 25. 5, 6.
3. Hŷd ei oes. Gen. 25. 7.
4. Ei farwolaeth. Gen. 25. 8.
5. Ei gladdedigaeth. Gen. 25. 9, 10.

BODLEIANA BIBLIOTHECA

121. G. Beth y mae hanes dyddiau diweddaf Abraham yn ddysgu i ni?
A. 1. Y dylai pob penteulu ymdrechu trefnu ei dŷ mewn doethineb a chyfiawnder.
2. Y cesglir pawb yn angau "*at eu pobl;*"—yr annuwiol at y colledigion i drueni, a'r duwiol at y seintiau i Baradwys.
3. Mai nid peth anaddas ydyw i berthynasau duwiol ddymuno cael eu claddu yn yr *un* beddrod, mewn gobaith o gael *cyd*-adgodi i fywyd tragywyddol.

122. G. Pa addysgiadau *cyffredinol* sydd i'w casglu oddiwrth hanes bywyd y patriarch Abraham?
A. 1. Mai taith o bererindod yw *bywyd* y Cristion.
2. Mai ymddiried yn NUW yw *dyledswydd* y Cristion.
3. Mai cymdeithasu â DUW yw *braint* y Cristion.
4. Mai bod yn ddefnyddiol dros DDUW yw *gogoniant* y Cristion.
5. Mai myned at DDUW yw *diwedd* y Cristion.

DIWEDD HANES ABRAHAM.

*Llanfair-Caer-Einion: Argraffwyd gan R. Jones.*